DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Practis Deintyddol Craig-y-don

11 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:**0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digital ISBN978-1-4734-6463-6
ⓗHawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 15

6. Methodoleg .......... 16

Atodiad A .......... 18

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Craig-y-don, Shirley, 28 Rhodfa Mostyn, Llandudno, LL31 1YY, ar 11 Chwefror 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Craig-y-don yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Craig-y-Don yn bractis deintyddol preifat sefydledig sy'n darparu gwasanaethau i gleifion yn Llandudno ac ardal amgylchynol Cyngor Conwy. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd a phedair nyrs/derbynnydd.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol preifat, gan gynnwys:

- Cyngor ataliol a chyngor deietegol
- Coronau, pontydd ac argaenau
- Llenwadau gwyn
- Dannedd gosod
- Gwynnu dannedd
- Gweddnewid gwên

## 3. Crynodeb

Roedd y cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC yn nodi eu bod yn derbyn gwasanaeth ardderchog gan y tîm staff. Gwelsom staff yn bod yn garedig a chwrtais tuag at gleifion. Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion mewn fformatau eglur a hawdd eu darllen. Fodd bynnag, rydym wedi cynghori'r practis i gynnig gwybodaeth allweddol yn Gymraeg.

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau addas ar waith i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roedd system effeithiol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Serch hynny, rydym wedi argymell gwelliannau a ddylai helpu i gadarnhau'r gwaith o atal a rheoli heintiau mewn rhai mannau.

Roedd safon y gwaith cadw cofnodion a chyfathrebu rhwng y staff yn dda. Dylid cynnal asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos ar gyfer pobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd. Gwnaethom gynghori'r practis i drefnu cwrs cymorth cyntaf addas a hyfforddiant diweddaru cymorth cyntaf rheolaidd ar gyfer y swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd Practis Deintyddol Craig-y-don yn cael ei arwain a'i reoli'n effeithiol. Mae'n werth nodi bod yr ymarferwyr deintyddol yn barod i dderbyn yr holl awgrymiadau a wnaed gennym ar gyfer gwelliannau. Rhoddwyd sylw i rai o'n hargymhellion yn syth neu cawsant eu cwblhau erbyn y diwrnod canlynol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Roedd y cleifion a wnaeth ymateb i holiaduron AGIC yn nodi eu bod yn derbyn gwasanaeth ardderchog gan y tîm staff. Gwelsom staff yn bod yn garedig a chwrtais tuag at gleifion. Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion mewn fformatau eglur a hawdd eu darllen. Fodd bynnag, rydym wedi cynghori'r practis i gynnig gwybodaeth allweddol yn Gymraeg.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 36 holiadur wedi'u cwblhau, ac roedd pob un ohonynt yn dangos bod cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Disgrifiodd y cleifion eu profiadau gan ddefnyddio geiriau fel *"ardderchog"* a *"bodlon iawn"*. Nododd pedwar o'r cleifion mai deintyddion Craig-y-don oedd y deintyddion gorau iddynt eu defnyddio erioed. Ychwanegodd 14 o'r cleifion sylwadau canmoliaethus pellach, y gwnaethom eu rhannu â'r tîm staff. Ymysg sampl bach o'r rhain roedd:

*“I grynhoi, mae practis deintyddol Craig-y-don yn broffesiynol iawn ac yn un y mae'n fraint bod yn gysylltiedig ag ef.”*

*“Rwy'n hapus iawn gyda phopeth; mae'r staff yn barod eu cymwynas ac yn gyfeillgar. Mae'r plant yn hapus iawn i fynychu apwyntiadau."*

*“Cyn i mi ddod yma roedd gen i ofn deintyddion. Rwyf wedi cael croeso o'r apwyntiad cyntaf un. Nid oes arnaf ofn bellach - mae fy holl bryderon wedi cael eu tawelu. Rwy'n llawer mwy ymwybodol o'm hiechyd deintyddol.* Mae pawb rwyf yn dod i gysylltiad â nhw'n ddymunol, yn barod eu cymwynas ac yn deall. … *Mae hwn yn bractis bendigedig.”*

*“Rwyf bob amser wedi derbyn gwasanaeth ardderchog, gofalgar a chyfeillgar.”*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Roedd ein dadansoddiad o holiaduron y cleifion yn dangos bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom amgylchedd cynnes, croesawgar lle'r oedd staff yn garedig a chwrtais tuag at y cleifion. Roedd nifer o staff oedd wedi bod yn y practis ers amser hir ac roedd yn amlwg bod ganddynt berthynas dda â’r cleifion.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn glir. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys manylion perthnasol a chostau triniaethau deintyddol preifat. Roedd yr hysbysiadau mewn print mawr ac yn hawdd eu darllen. Fodd bynnag, nid oedd dim o'r wybodaeth a welsom wedi ei harddangos yn Gymraeg. Roedd un o'r cleifion a welsom yn ystod y dydd yn siarad Cymraeg a dywedwyd wrthym fod nifer o gleifion Cymraeg eu hiaith wedi cofrestru â'r practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid grymuso siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. I'r diben hwn, rydym wedi cynghori'r practis i sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig allweddol ar gael yn Gymraeg.***

<u>Gofal amserol</u>

Nododd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i'n holiadur nad oeddent erioed wedi profi oedi wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Gwelsom gleifion yn cael eu gweld yn brydlon ar ôl cyrraedd y practis.

<u>Cadw'n iach</u>

Eto, cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwelsom fod detholiad o daflenni ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros am driniaethau deintyddol amrywiol. Gwelsom yn ein hadolygiad o gofnodion cleifion eu bod yn cael cynllun triniaeth a gwybodaeth gynorthwyol.

Fodd bynnag, nid oedd manylion am roi'r gorau i ysmygu a defnydd o alcohol yn cael eu cofnodi'n gyson. Nid oedd ffurflen hanes meddygol cleifion yn cynnwys adran i'r cleifion ddarparu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, unwaith i ni dynnu sylw'r practis at hyn, cymerodd un o'r deintyddion gamau gweithredu ar unwaith, gan ddangos y ffurflen hanes meddygol ddiwygiedig i ni yn hwyrach, a oedd yn cynnwys adran i'r cleifion ei llenwi ar ysmygu a defnydd o alcohol. Felly roeddem yn hyderus y byddai'r mesur hwn yn atgoffa'r deintyddion a'r hylenydd i gynnwys y manylion hyn yn gyson a rhoi sylw i hyn gyda chleifion unigol yn ôl yr angen.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd deintyddol.

Roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth yn ddienw os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd blwch awgrymiadau a chardiau arolwg yn yr ystafell aros. Roedd saith o gleifion wedi cwblhau cerdyn yn ystod y ddau fis blaenorol.

Gwnaethom edrych ar eu hymatebion a gweld bod pob un ohonynt yn ganmoliaethus. Dywedodd pob un o'r saith claf nad oedd unrhyw beth y gallai'r practis ei wneud yn well, ac ychwanegodd un, *"Mae'n wych yn barod."* Mae gwefan y practis hefyd yn estyn gwahoddiad i gleifion wneud sylwadau am y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos sut y gweithredir yn sgil sylwadau cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid bod proses ar waith i ddangos sut mae'r practis wedi gweithredu yn sgil adborth gan gleifion ac wedi dysgu o'r adborth hwnnw.***

Gwnaethom ystyried gweithdrefn cwynion y practis, gan fod 16 allan o 36 o gleifion wedi dweud nad oeddent yn gwybod sut i gwyno. Er i ni weld bod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn glir ar yr hysbysfwrdd mawr cyffredinol yn y dderbynfa a'r ystafell aros, nid oedd y wybodaeth hon wedi ei chynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion. Felly gwnaethom argymell bod y wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu at y daflen neu fod taflen ar wahân ar gyfer cwynion ar gael yn y mannau hyn. Gwelsom fod gweithdrefn cwynion y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwnaethom edrych ar y ffeil cwynion. Fe’n hysbyswyd gan staff mai ychydig iawn o gwynion sy'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod cwynion sy'n cael eu derbyn yn cael sylw yn brydlon ac yn briodol.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom fod systemau addas ar waith ar gyfer cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roedd system effeithiol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Serch hynny, rydym wedi argymell gwelliannau a ddylai helpu i gadarnhau'r gwaith o atal a rheoli heintiau mewn rhai mannau.**

**Roedd safon y gwaith cadw cofnodion a chyfathrebu rhwng y staff yn dda. Dylid cynnal asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos ar gyfer pobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd. Gwnaethom gynghori'r practis i drefnu cwrs cymorth cyntaf addas a hyfforddiant diweddaru cymorth cyntaf rheolaidd ar gyfer y swyddog cymorth cyntaf penodedig.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwelsom fod yr offer oedd yn cael eu defnyddio yn y practis yn cael eu profi ac yn derbyn gwaith cynnal a chadw'n rheolaidd. Er hynny, roedd taflen waith ar gyfer prawf ar y boeler nwy, dyddiedig Ebrill 2015, yn dangos nad oedd lleoliad y mesurydd nwy yn unol â safonau iechyd a diogelwch. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y gwasanaeth nwy wedi rhoi sylw i hyn. Er nad oedd unrhyw beth pellach oedd yn awgrymu risg iechyd a diogelwch, gwnaethom gynghori y dylid rhoi sylw i hyn cyn dyddiad yr arolwg blynyddol nesaf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid hysbysu AGIC am ganlyniad trafodaeth y practis gyda pheiriannydd y gwasanaeth nwy ynglŷn â lleoliad y mesurydd nwy a pha gamau gweithredu a gymerwyd/a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i'r drafodaeth hon.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer casglu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd angen diweddaru'r polisi rheoli gwastraff, yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli gwastraff gofal iechyd. Mae hyn oherwydd bod bagiau o'r lliw anghywir yn y biniau gwastraff clinigol pan wnaethom gyrraedd. Cawsom wybod y byddai'r rhain wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r cynhwysydd priodol. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad pellach â'r contractwr gwastraff, newidiodd y staff y bagiau ym mhob un o'r biniau gwastraff clinigol. Rhoddwyd sicrwydd gan y staff y bydd y bagiau cywir yn cael eu defnyddio o hyn ymlaen; felly nid oedd angen i ni wneud unrhyw argymhellion pellach ar yr achlysur hwn.

Gwnaethom ystyried glanweithdra cyffredinol a gwelsom fod y safon yn uchel ar y cyfan. Gwelsom dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad rheoli heintiau

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01.05[1] wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror 2015. Roedd yr holl hysbysiadau gwybodaeth o amgylch yr adeilad wedi cael eu lamineiddio neu eu fframio ac felly roeddent yn hawdd i'w glanhau. Roedd yr unedau, cypyrddau, droriau a'r offer deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth yn edrych yn lân. Fodd bynnag, roedd angen glanhau pellach ar ambell i fan anodd ei gyrraedd yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Yn ogystal, nid oedd rhai mannau bach o dan y sil ffenestr a rhwng y llawr a phibau'r gwresogydd wedi eu selio. Felly cytunodd y deintydd i selio'r rhannau hyn, a fydd yn helpu i atal baw rhag casglu. Gwnaethom edrych ar yr amserlen lanhau a gweld nad oedd yn cynnwys yr holl ardaloedd nac eitemau mewn ystafelloedd unigol, er enghraifft byrddau sgyrtin, ffenestri ac offer.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai pob ardal o fewn amgylchedd y practis gael ei chynnal a'i chadw a'i glanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau ac sy'n lleihau'r risg o heintiau.***

***I'r diben hwn, cynghorir y practis i roi amserlen lanhau fwy manwl ar waith i sicrhau bod pob rhan o bob ystafell, gan gynnwys gosodiadau ac offer, yn cael ei chynnwys, ynghyd â pha mor aml mae'n cael ei glanhau.***

Gwnaethom siarad â'r deintyddion a'r nyrsys am y broses lanhau a sterileiddio offer deintyddol, a oedd yn effeithiol ar y cyfan. Roedd yr adnoddau a'r systemau ar waith yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Er hynny, roedd y ffan echdynnu yn yr ystafell ddadheintio wedi ei lleoli uwchben yr ochr 'lân' (hynny yw, yr ardal lle caiff offer deintyddol eu sterileiddio) ac felly'n achosi llif aer o'r ardal fudr i'r ardal lân. O ran rheoli ac atal heintiau, mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymell y dylai'r llif aer lifo o'r ardal lân i'r ardal fudr,[2] ac felly dylid ailosod y ffan echdynnu'n agosach at yr ardal fudr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

---

[1] Yn unol â chanllawiau *Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05: Dadheintio offer mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol* (Chwefror 2014).

[2] WHTM 01-05, Adran 6.40 i 6.45.

***Rhaid i'r practis hysbysu AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod awyriad yr ystafell ddadheintio'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Roedd gan y practis dri pheiriant pelydr-X. Gwelsom dystysgrif prawf ddilys ar gyfer pob un o'r rhain. Roedd proses ar waith i archwilio delweddau pelydrau-X, a chynhaliwyd yr archwiliad mwyaf diweddar yn ystod mis Ionawr 2016. Roedd y ddau ddeintydd wedi derbyn hyfforddiant addas yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unol â rheoliadau.[3] Roedd lleoliad y swits ynysu ar gyfer un o'r peiriannau pelydr-X o fewn yr 'ardal reoledig'.[4] Gwnaethom hysbysu'r deintyddion y gallai hwn fod yn fater difrifol (oherwydd risg posibl y byddai staff yn agored i ormod o ymbelydredd pe bai rhaid iddynt ddefnyddio'r swits ynysu mewn argyfwng wrth i ddelwedd pelydr-X gael ei chynhyrchu). O ganlyniad, cymerodd y deintydd gamau gweithredu prydlon a chysylltu â thrydanwr. Derbyniodd AGIC gadarnhad a thystiolaeth ffotograffig y diwrnod canlynol, oedd yn dangos bod y swits ynysu wedi cael ei ailosod y tu allan i'r ardal reoledig.

Gwnaethom edrych ar yr offer a'r stoc o feddyginiaeth y mae angen i bractisau deintyddol eu cael ar gyfer achos o argyfwng. Er bod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn ystafell, gwnaethom gynghori'r practis i osod clo ar y drws ar gyfer yr adegau pan nad oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio. Nid oedd dwy feddyginiaeth, a argymhellir ar gyfer practisau deintyddol gan Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, ar gael. Roedd un yn feddyginiaeth y gellir ei gweinyddu i unigolyn sy'n cael trawiad epileptig, yr oedd y deintyddion yn teimlo nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant digonol i'w gweinyddu. Fodd bynnag, dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o'r hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd blynyddol, y gwnaethom ganfod bod y staff yn ei dderbyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

---

[3] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000

[4] Mae ardal reoledig yn ardal sydd wedi cael ei dynodi gan gyflogwr i gynorthwyo wrth reoli a chyfyngu datguddiad i ymbelydredd. Felly mae angen i staff sy'n mynd i mewn i ardal reoledig ddilyn gweithdrefnau arbennig er mwyn atal perygl rhag gormod o ymbelydredd.

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl feddyginiaethau a argymhellir gan Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i'w defnyddio mewn practisau deintyddol mewn achos o argyfwng ar gael.***

***Dylid trefnu hyfforddiant meddyginiaeth mewn argyfwng pellach i staff y practis yn ôl y gofyn.***

Y nyrs a oedd wedi dechrau gweithio yn y practis yn ddiweddar oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig ar gyfer y practis. Gwelsom mai yn 2009 y derbyniodd hyfforddiant ddiwethaf, felly gwnaethom argymell ei bod yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf addas yn ddi-oed.

***Dylai'r swyddog cymorth cyntaf penodedig gwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf addas yn ddi-oed a dylid parhau'r hyfforddiant mor aml â'r hyn sy'n ofynnol wedi hynny.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom edrych ar y polisïau/gweithdrefnau a gedwir yn y practis.  Nid oedd dyddiad ar unrhyw un o'r rhain ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod fersiynau'n cael eu hadolygu a'u rheoli. Felly, gwnaethom awgrymu y dylai'r practis roi system ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl y gofyn.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf ar gyfer pob deintydd a hylenydd. Nid oedd hanesion meddygol, oedd wedi'u cwblhau gan y cleifion, yn cael eu sganio i'w rhoi ar y cyfrifiadur. Roedd y ffurflen hanes meddygol ddiwygiedig hefyd yn cynnwys lle i gydlofnodi i ddangos bod y deintyddion a'r hylenydd wedi darllen y wybodaeth. Nid oedd tystiolaeth bod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda chleifion a bod y practis yn ceisio sicrhau eu cydsyniad.

Roedd staff yn defnyddio'r system gyfrifiadurol yn effeithiol. Er enghraifft, gwelsom fod tasgau'n cael eu creu i'w hatgoffa o ddyddiadau dod i ben a/neu ddyddiadau archwiliadau. Roedd y weithdrefn Cyfarpar Sgrin Arddangos, sy'n berthnasol i staff sy'n defnyddio cyfrifiadur yn rheolaidd, yn fyr iawn. Nid oedd asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos wedi cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992[5].***

***Dylai'r polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos gynnwys digon o wybodaeth ac arweiniad fel sy'n berthnasol i'r practis ac i'r unigolion sy'n defnyddio cyfrifiadur yn rheolaidd.***

Ar y cyfan, roedd amgylchedd cartrefol a chroesawgar yn y practis, gydag ystafelloedd triniaeth o faint canolig ac ystafell aros fawr. Roedd dau ris yn y fynedfa i'r practis; gwelsom fod rampiau ar gael ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Roedd un toiled at ddefnydd y cleifion a'r staff, nad oedd yn ddigon mawr i gadair olwyn. Roedd llefydd ar gyfer storio yn y practis yn gyfyngedig, er i ni ganfod bod popeth yn drefnus iawn ac wedi ei storio'n daclus ar adeg yr arolygiad. Felly gwnaethom awgrymu y gellid gwella'r amgylchedd pe bai cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Nid oes maes parcio yn y practis, ond dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn llwyddo i gael lle ar y brif ffordd y tu allan i'r practis neu'n agos at y practis.

---

[5] Mae canllaw byr ynglŷn â chyfrifoldebau cyflogwr dan y rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos ar gael hefyd ar: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg36.pdf

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd Practis Deintyddol Craig-y-don yn cael ei arwain a'i reoli'n effeithiol. Mae'n werth nodi bod yr ymarferwyr deintyddol yn barod i dderbyn yr holl awgrymiadau a wnaed gennym ar gyfer gwelliannau. Rhoddwyd sylw i rai o'n hargymhellion yn syth neu cawsant eu cwblhau erbyn y diwrnod canlynol.**

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn cael ei reoli gan ddau bartner deintyddol, y mae un ohonynt yn bwriadu ymddeol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Gwelsom fod yr holl staff yn groesawgar tuag atom ac yn barod eu cymwynas. Wrth archwilio dogfennau a ffeiliau'r staff, gwelsom dystysgrifau cofrestru dilys, yswiriant indemniad a gwiriadau cyflogeion, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, yn unol â rheoliadau.

Er bod tystiolaeth o hyfforddiant rheolaidd, nid oedd cofnod o'r hyfforddiant a gwblhawyd a'r dyddiadau adnewyddu ar gyfer pob aelod o staff. Wrth edrych ar sampl o dystysgrifau hyfforddiant, gwelsom fod rhai yn dangos dyddiad sawl blwyddyn yn ôl ac felly roedd angen hyfforddiant diweddaru ar y staff. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, er na ellid gwirio hyn gan eu bod yn cadw eu tystysgrifau hyfforddiant eu hunain nad oeddent ar gael i ni yn ystod yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis allu dangos bod staff wedi eu hyfforddi ac yn gymwys ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud. Gwnaethom awgrymu y gellid datblygu system fwy cadarn ar gyfer monitro hyfforddiant staff a dyddiadau adnewyddu.***

Roedd llawlyfr staff cynhwysfawr ar gyfer cyflogeion newydd. Roedd yr aelod mwyaf diweddar o staff wedi dechrau ychydig ddyddiau cyn yr arolygiad. Cadarnhaodd ei bod wedi derbyn copi o'r llawlyfr a'i bod yn darllen trwy'r rhaglen sefydlu, yr oedd wedi ei chael i fod yn dda iawn hyd yn hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn arfarniadau staff yn flynyddol, a gwelsom gopïau o gynlluniau datblygu personol ysgrifenedig ar gyfer 2016 i rai o'r staff.

Bu rheolwr practis yn goruchwylio rhai o'r cyfrifoldebau rheoli nes yn ddiweddar. Ers i'r rheolwr practis adael, roedd y gwaith wedi cael ei ddirprwyo rhwng y staff presennol. Fodd bynnag, roedd cynlluniau ar waith i adolygu'r trefniant hwn unwaith y bydd deintydd newydd yn cael ei recriwtio. O archwilio cofnodion cyfarfodydd y tîm, gwelsom nad oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn aml.

Felly gwnaethom argymell bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn arbennig o ystyried bod newidiadau staffio pellach ar ddod (gan gynnwys ymddeoliad un o'r deintyddion). Nid oedd cofnodion cyfarfodydd diwethaf y tîm yn ddigonol i ddangos bod y practis wedi dysgu yn sgil y trafodaethau hyn. Felly, gwnaethom atgoffa'r practis i sicrhau bod y cofnodion yn ddigonol i'r diben hwn.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Craig-y-don yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal</u>**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Craig-y-don, 28 Rhodfa Mostyn, Llandudno

## Dyddiad yr arolygiad: 11 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | ***Dylid grymuso siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Rydym wedi cynghori'r practis i sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig allweddol ar gael yn Gymraeg.*** | Safonau 3.2, 4.1 a 4.2 | Bydd gennym adran Gymraeg ar ein gwefan.<br>Bydd taflenni allweddol yn ddwyieithog.<br>Mae dau aelod arall o staff Cymraeg eu hiaith wedi ymuno â'r un oedd yma eisoes. | JJ | Ebrill 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | ***Dylid bod proses ar waith i ddangos sut mae'r practis wedi gweithredu yn sgil adborth gan gleifion a sut mae wedi dysgu o'r adborth hwnnw.*** | Safon 6.3 | Byddwn yn gwerthuso ffurflenni adborth.<br>Trafod canfyddiadau.<br>Rhoi awgrymiadau synhwyrol ar waith. | JJ | Mehefin 2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | ***Mae angen hysbysu AGIC am ganlyniad trafodaeth y practis gyda pheiriannydd y gwasanaeth nwy ynglŷn â lleoliad y mesurydd nwy a pha gamau gweithredu a gymerwyd/a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i'r drafodaeth hon.*** | Safon 2.1 | Byddwn yn trafod y mater hwn gyda British Gas. Mae British Gas i fod i ddod yma ym mis Ebrill 2016. | JJ | Mai 2016 |
| 9 | ***Dylai pob ardal o fewn amgylchedd y practis gael ei chynnal a'i chadw a'i glanhau i safon sy'n hwyluso'r broses o atal a rheoli heintiau ac sy'n lleihau'r risg o heintiau.***<br>***I'r diben hwn, cynghorir y practis i*** | Safonau 2.1 a 2.4 | Rydym wedi rhoi cynllun mwy trwyadl ar waith. | JJ | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***roi amserlen lanhau fwy manwl ar waith i sicrhau bod pob rhan o bob ystafell, gan gynnwys gosodiadau ac offer, yn cael ei chynnwys, ynghyd â pha mor aml mae'n cael ei glanhau.*** | | | | |
| 9 | ***Rhaid i'r practis hysbysu AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod awyriad yr ystafell ddadheintio'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.*** | Safon 2.4 | Byddwn yn addasu'r ffan echdynnu er mwyn i'r llif aer gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | JJ | Mehefin 2016 |
| 10 | ***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl feddyginiaethau a argymhellir gan Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i'w defnyddio mewn argyfwng mewn practisau deintyddol ar gael.***<br><br>***Dylid trefnu hyfforddiant meddyginiaeth mewn argyfwng pellach i staff y practis yn ôl y gofyn.*** | Safonau 2.6, 2.9 a 7.1 | O'r ddwy feddyginiaeth a nodwyd, mae un ar gael yma yn awr ac mae'r llall wedi cael ei harchebu gan gyflenwyr y GIG. | JJ | 1 Cwblhawyd<br><br>1 I'w gadarnhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | ***Dylai'r swyddog cymorth cyntaf penodedig gwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf addas yn ddi-oed a dylid parhau'r hyfforddiant mor aml â'r hyn sy'n ofynnol wedi hynny.*** | Safon 7.1 | Mae hyn bellach wedi'i gwblhau. | JJ | Cwblhawyd |
| 11 | ***Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992***[8]. <br><br> ***Dylai'r polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos gynnwys digon o wybodaeth ac arweiniad fel sy'n berthnasol i'r practis ac unigolion sy'n defnyddio cyfrifiadur yn*** | Safon 2.1 | Mae hyn wedi cael ei roi ar waith. | JJ | Cwblhawyd |

[8]Mae canllaw byr ynglŷn â chyfrifoldebau cyflogwr dan y rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos ar gael hefyd ar: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg36.pdf

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***rheolaidd.*** | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai'r practis allu dangos bod staff wedi eu hyfforddi ac yn gymwys ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud. ***Gwnaethom awgrymu y gellid datblygu system fwy cadarn ar gyfer monitro hyfforddiant staff a dyddiadau adnewyddu.*** | Safon 7.1 | Bydd ein cofnod hyfforddi presennol yn cael ei ailddatblygu. | JJ | Mehefin 2016 |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):..** **John Johnson ..........................................................**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd y Practis ..........................................................**

**Dyddiad:** **08/03/16 ..................................................................**